



Cyngor Cymuned Llangynnwr

“Gweithio i gefnogi'r gymuned”

Rhifyn 1

**Eich Cyngorwyr:
Ward y Dwyrain**



Cyng Robin Griffiths
Annibynnol



Cyng Vivian Davies



Cyng Paul Totterdale



Cyng Elwyn Williams
- Plaid Cymru



Cyng Dafydd
Williams

Ward y Gorllewin



Cyng Geraint Bevan
- Plaid Cymru

**Croeso i rifyn cyntaf o
Cylchlythyr y Cyngor.**

GWEFAN Y CYNGOR CYMUNED

Am y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cyngor ewch i wefan y Cyngor Cymuned ar: <http://www.llangunnorcommunitycouncil.co.uk>

EICH CYNGOR CYMUNED

Mae'r Cyngor, sydd wedi'i rannu'n ddwy ward, yn cynnwys tri ar ddeg o aelodau etholedig, sydd naill ai wedi eu hethol ar y Cyngor yn dilyn etholiad neu wedi cyfethol i'r Cyngor os nad oes digon o niferoedd i gynnal etholiad. Mae'r Cyngor yn cyflogi clerc rhan amser sy'n gweithio o gartref.

PA ARDAL Y MAE CYNGOR CYMUNED LLANGYNNWR YN EI CHWMPASU?

Mae plwyf Llangynnwr yn gorchuddio tua 2340 o hecтарau, o ger Capel Dewi ar yr ochr ogleddol, Cwmffrwd yn y De a bron i Landdarog yn y dwyrain. Mae'n meddiannu'r tir uchel yn bennaf ar ochr ddwyreiniol Dyffryn ffrwythlon hardd afon Tywi ac yn cynnwys pentrefi a phentrefannau Pensarn, Login, Tregynwr, Pibwrlwyd, Llangynnwr a Nant-y-caws. Mae'r Cyngor yn cynrychioli tua 1225 o gartrefi.



SUT I GYSYLLTU Â'R CYNGOR?

Dylid cyfeirio pob cyfathrebiad â'r cyngor cymuned at y Clerc drwy e-bost, llythyr neu ffôn gan ddefnyddio'r manylion cyswllt canlynol:

Mr. Clive Thomas, Clerc y Cyngor, 59 Nantyrarian, Caerfyrddin, SA31 3JQ

Ffoniwch 01267 232665 neu e-bostiwch: Clerk@llangunnor-cc.org.uk

BLE A PHRYD MAE'R CYNGOR YN CYFARFOD?

Mae'n cyfarfod yn fisol (ar wahân i fis Awst) ar y drydedd nos lau o bob mis yn ' Yr Aelwyd ' am 6.30pm. Mae croeso i chi ddod i'r cyfarfod hwn. Mae cyfle ym mhob cyfarfod i chi ofyn cwestiynau neu godi materion sy'n peri pryder.

**Eich Cyngorwyr:
Ward y Gorllewin**




Cyng Sandra Thomas



Cyng Alexandra
Trowbridge-Matthews



Cyng Alun West



Cyng Jennifer Slate



Cyng Lee Whatley



Cyng John Porter

GWYBODAETH AM EICH CYNGOR CYMUNED

BETH YW CYNGHORAU CYMUNED?

Corff corfforaethol yw Cyngor Cymuned, sy'n cynnwys y Cadeirydd a'r Cynghorwyr Cymuned sy'n cael eu hethol gan etholwyr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned ac sy'n dal swydd am dymor o 4 blynedd. Mae'r Cadeirydd yn cael ei ethol yn flynyddol gan y Cyngor o blith y cynghorwyr.

BETH YW RÔL Y CYNGOR CYMUNED?

- i gynrychioli'r gymuned gyfan ac adlewyrchu barn y gymuned y mae'n ei chynrychioli
- i ddarparu gwasanaethau i gyflenwi anghenion lleol, ac ymdrechu i wella ansawdd bywyd yn y gymuned
- i gysylltu â grwpiau cymunedol eraill yn yr ardal
- i fynegi'n deg yr amrywiaeth o safbwyntiau a rhagolygon y bobl
- i fynegi barn y gymuned i'r Awdurdod Lleol dros yr ardal, i awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau eraill
- i gymryd unrhyw gamau er budd y gymuned fel sy'n ymddangos yn ddymunol ac yn ymarferol
- i hyrwyddo lles y gymuned ac i feithrin ysbryd cymunedol
- yn fodd i bobl yr ardal allu lleisio eu barn ar unrhyw fater sy'n effeithio ar eu bywydau, eu lles, eu hamgylchedd, ei ddatblygiad a'i amwynder

SUT Y MAENT YN GWNEUD EU PENDERFYNIADAU?

Mae eich cyngor lleol yn cynnwys nifer o gynghorwyr sy'n cyfarfod yn rheolaidd i wneud penderfyniadau ar waith a chyfeiriad y Cyngor. Fel cyrff etholedig mae cynghorau lleol yn atebol i'r bobl y maent yn eu cynrychioli - dyna ein cymuned leol. Mynychu cyfarfod o'r Cyngor yw'r ffordd orau o ddarganfod beth mae'n nhw'n ei wneud.

Mae amryw o is-bwyllgorau wedi'u sefydlu er mwyn gallu trafod a llunio prosiectau i'r prif gyngor er mwyn iddynt wneud penderfyniadau. Ar hyn o bryd mae gennym bwyllgorau Cynllunio, Cyllid, Parc, Cyfryngau a'r We, Coeden Nadolig, a'Valero Task & Finish'.

O BLE MAEN NHW'N CAEL EU HARIAN?

Bob blwyddyn cesglir swm o arian a elwir yn 'praesept ' drwy eich treth cyngor. Mae'r arian hwn yn cael eu fuddsoddi yn eich cymdogaeth leol gan eich cyngor lleol i wella cyfleusterau a gwasanaethau ar eich cyfer chi a'ch cymdogion.

BETH YW PRIF DDYLETSWYDDAU'R CYNGOR?

- Edrych ar ôl y cae chwarae lleol a'r parc, seddau cyhoeddus a hysbysfyrddau
- Cynnal llwybrau cyhoeddus, llwybrau cefylau, meysydd parcio, biniau sbwriel
- Cyfrifoldeb am lochesi fws, goleuadau stryd a glanhau strydoedd
- Ystyried materion cynllunio
- Awgrymu gwelliannau ynglŷn â phrifyrdd
- Gweithio gyda'r Heddlu i ddiogelu'r gymuned
- Rhoi cymorth ariannol i amryw o fudiadau gwirfoddol ac elusennau
- Penodi cynrychiolwyr i nifer o gyrff lleol ac allanol

AMCANION AR GYFER 2018-19

Un o'n prif amcanion eleni yw ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda'r gymuned fel y gallwn gyflawni ein rôl yn fwy llwyddiannus. Rydym am gynrychioli'r rhan fwyaf o'r gymuned yn hytrach na'r lleiafrif, ac un o'r ffyrdd y gallwn wneud hyn yw rhoi gwybod i chi am yr hyn y mae eich cyngor yn ei wneud a rhoi'r cyfle i chi fynegi eich barn a'ch pryderon. Ni allwn blesio pawb bob amser, ond os ydym yn ymwybodol o bryderon y rhan fwyaf o'r bobl, a beth y dymunant weld yn y gymuned, allwn gyfleu gwell gwaith.

Mae nifer o gynghorau cymuned eraill yn gweld bod cyhoeddi cylchlythyr yn ffordd gadarnhaol o gyfathrebu â thrigolion ac mae Cyngor Cymuned Llangynnwr wedi penderfynu gwneud hyn hefyd. Byddwn yn defnyddio'r Cylchlythyr i roi gwybod i chi beth rydym yn ei wneud, beth rydym wedi'i wneud, a gadael i chi wybod straeon o newyddion da a hefyd yn dweud wrthyfych am yr hyn nad ydym wedi gallu eu cyflawni.

YDYCH CHI AM WNEUD GWAHANIAETH YN EICH CYMUNED?

Beth am ddod yn Gynghorydd Cymuned a gwneud gwahaniaeth i'ch cymuned leol? Mae yna swydd wag ar gyfer cynghorydd yn bodoli ar Gyngor Cymuned Llangynnwr a dyma'ch cyfle i gael eich cyfethol fel aelod. Mae'n gyfle gwych i chi wneud gwahaniaeth i'r ardal leol drwy gyfrannu tuag at wella ansawdd bywyd y gymuned a dylanwadu'n gadarnhaol ar y ffordd y caiff y cyhoedd wasanaeth sy'n diwallu anghenion lleol.


Os oes gennych ddi-ddordeb llenwch y ffurflen ar ein gwefan, neu cysylltwch â'r Clerc, Mr. Clive Thomas, 59 Nantyrarian, Caerfyrddin SA31 3JQ – 01267 232665 – Clerk@llangunnor-cc.org.uk.

BETH MAE'R CYNGOR WEDI BOD YN EI WNEUD DROS Y MISOEDD DIWETHAF?

Y Parc

Mae'r Parc yn rhan hanfodol o'n cymuned, ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed i wneud gwelliannau fel y gall pawb fwynhau'r Parc. Byddwch, gobeithio, wedi gweld bod yr offer chwarae yn y Parc wedi cael ei beintio mewn lliwiau cynradd llachar, ac rydym yn gobeithio y gallwn beintio'r rheiliau ar ôl yr haf. Mae ymyl y llwybr wedi'i drwsio hefyd. Yr ydym wedi archebu postyn gôl a all ddyblu lan fel postion ar gyfer pêl-droed a rygbi, ac yr ydym yn aros i'w derbyn.

Bydd Tywi Riders yn defnyddio Parc Llangynnwr bob dydd Sadwrn tan y Nadolig ac mae croeso i blant lleol ymuno gyda nhw rhwng 10am a 12hanner dydd am sesiwn brofi. Ewch i'w gwefan am fanylion. www.towyriders.org.uk



Cynllun Tesco 'Bags for Help' (tocynnau glas) – Diffibrilwyr



Roeddem yn ffodus o dderbyn arian o gynllun tocynnau glas Tesco, ac rydym wedi'i rhoi'r arian hyn tuag at ddarparu tri diffibrilwyr yn y gymuned. Bwriedir eu lleoli yn Yr Aelwyd, yr Ysgol ac rydym yn gobeithio gosod un yn y Parc os gallwn nodi pwynt trydanol addas. Os bydd argyfwng a bod angen ichi ddefnyddio diffibriliwr, byddwch yn ymwybodol fod y peiriant yn eich arwain drwy beth yn union beth sydd angen i chi ei wneud. Mae clo ar y diffibrilwyr er mwyn atal fandaliaeth. Ffoniwch 999 er mwyn cael y cod. Er gwybodaeth, mae Morrisons wedi rhoi diffibriliwr y tu mewn i'w siop. Bydd hyfforddiant ar gyfer y gymuned yn digwydd yn y flwyddyn newydd. Cadwch lygad allan am fanylion ar hysbysfyrdau a gwefan.

Amwynderau lleol

Mae bolardiau wedi'u gosod ar y palmant yng Nghapel Dewi i ddiogelu cerddwyr ac atal difrod i'r palmant o gerbydau sy'n torri'r cornel. Fe gafodd y danffordd ar waelod Rhiw Babell ei lanhau ar gyfer Taith Prydain. Rydym wedi gosod meinciau yn Heol Login, Heol Llangynnwr, Heol Pensarn ac ar dop a gwaelod Rhiw Babell, a hefyd wrth fynedfa Tregynnwr. Mae'r rhain eisoes yn cael eu defnyddio gan bobl sy'n mwynhau cerdded o amgylch yr ardal ac yn cynnig lle i orffwys a gwerthfawrogi'r olygfa. Roedden am hyrwyddo cerdded yn yr ardal fel ymarfer corff iach a gobeithio y bydd mwy ohonoch chi'n mwynhau cerdded o amgylch yr ardal.

Mae planwyr blodau wedi'u gosod yn ardal Pensarn er mwyn helpu i'w gwneud yn fwy pleserus i'r llygad. Roeddent ychydig yn hwyrach na'r disgwyl ond yn werth yr aros.



Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor Cymuned

Yn ein cyfarfod cyffredinol blynyddol ym mis Mai, fe gyflwynwyd gwobrau am wasanaethau i'r gymuned. Cyflwynwyd gwobrau i'r bobl ganlynol; Eileen Jones am ei holl waith caled yn codi arian i elusen dros y blynyddoedd gyda'i boreau coffi; Michael Phillips a Hywel Evans am eu blynyddoedd o wasanaeth yn cyflenwi llaeth i'r gymuned, a Cyril Phillips, am flynyddoedd o godi arian i elusennau, ei wasanaeth i gymuned Llangynnwr, Eglwys Llangynnwr a'r ysgol dros ddegawdau lawer. Rydym dal yn cefnogi ysgol Llangynnwr ac fe groesawyd Gruffydd Caradog, Cadeirydd Cyngor Ysgol Llangynnwr i'n cyfarfod cyffredinol blynyddol, ynghyd â'r Prifathro, Aled Davies. Cawsom ein plesio'n fawr gan aeddfedrwyrdd a hyder Gruffydd wrth roi ei araith i'r cyfarfod cyffredinol blynyddol. Da iawn Gruffydd.

Os ydych yn gwybod am unrhyw un sydd, yn eich barn chi, yn haeddu cael ei gydnabod gan y Cyngor Cymuned am wasanaeth i'r gymuned, yna rhowch wybod i'ch Cyngor.



Valero

Yn dilyn gollyngiad o kerosene o bibell a oedd yn eiddo i'r, enw mawr ym myd olew, Valero Energy Ltd, fe dderbyniodd y gymuned £40,000. Penderfynwyd ymgynghori'n eang â thrigolion y gymuned i gael gwybod sut yr hoffent i'r arian hwn gael ei wario er budd y gymuned lawn. Er gwaethaf hysbysiadau cyhoeddus, a phostio ar gyfryngau cymdeithasol, ni chawsom lawer o awgrymiadau. Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori yn gynharach eleni. Er hynny, ychydig iawn o drigolion wnaeth fynychu i roi eu barn. Ffurfiwyd is-bwyllgor i drafod hyfywdra'r awgrymiadau a dderbyniwyd. Hyd yn hyn rydym wedi cyfrannu arian tuag at waith atgyweirio ym mynwent y Capel a hefyd tuag at welliannau ar y gyffordd yn Nantycaws. Rydym yn dal i fod yn agored i awgrymiadau felly cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw awgrymiad.

MATERION LLEOL

Cŵn yn y Parc

Yn dilyn cwynion i'r Cyngor, fe drafodwyd yn yr is-bwyllgor Parc ac Amgylchedd, adroddiadau ynglŷn â chŵn yn rhydd o'i dennyn ac yn codi ofn ar blant. Er mwyn sefydlu beth y gallem ac na allem ei wneud i ddatrys y mater hwn, fe ofynnwyd i Gyngor Sir Caerfyrddin a allem orchymyn bod cŵn yn cael eu cadw ar dennyn yn y Parc. Rydym wedi cael ein cyngori bod yn rhaid i ni ddarparu ardal yn y gymuned lle y gall cŵn ymarfer o'r tennyn, ac felly nid yw hyn yn opsiwn. Un awgrym oedd darparu ardal â ffens o'i amgylch lle gall cŵn ymarfer yn rhydd o'i dennyn a bant o le chwarae'r plant. Rydym wedi trafod yr opsiwn hwn ac wedi penderfynu peidio â mynd ymlaen.

Materion parcio Haulfryn

Rydym wedi gweithio'n galed gyda swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu lleol i geisio datrys problemau yn ymwneud â pharcio yn ardal Haulfryn/Lôn Penymorfa. Er hynny, nid ydym wedi llwyddo i ddod o hyd i ateb a fydd yn caniatáu i drigolion a thraffig yr ysgol i barcio yn yr ardal hon. Un opsiwn y gallwn ei ystyried yw cyflwyno parcio trwyddedau yn yr ardal, a fyddai'n golygu na fyddai neb yn gallu parcio yn yr ardal heb drwydded. Er hynny, ni dyma gost na ddylai preswylwyr orfod ei goddef. Yn amlwg rhaid i rieni gasglu eu plant o'r ysgol ond gofynnwn i'r rhieni i barchu'r preswylwyr a bod yn fwy ystyriol wrth barcio.

Arhosfan bws yn Lôn Penymorfa

Yn dilyn ymweliadau safle blaenorol gan yr awdurdodau perthnasol, oherwydd lleoliad gwasanaethau tanddaearol, a'r risgiau iechyd a diogelwch i gerddwyr a modurwyr, ni allwn wneud rhagor o ran darparu arhosfan bysiau yn Lôn Penymorfa.

DIGWYDDIADAU YN Y GYMUNED

GWASANAETH DINESIG

Fe gynhaliodd Cadeirydd Cyngor Cymuned Llangynnwr, y Cynghorydd Sandra Thomas, Wasanaeth Dinesig yn Eglwys Llangynnwr am 11am nos Sul 9 Medi 2018.



DIWRNOD AGORED HEDDLU DYFED POWYS



Ar ddydd Sul 16 Medi rhwng hanner dydd a 4 p.m. fe gynhaliwyd diwrnod agored ym Mhencadlys yr Heddlu. Roedd yna arddangosfeydd gan y Gwasanaethau Tan ac Ambiwlans ynghyd a phartneriaid eraill. Roedd yna gyfle i blant a phobl ifanc i weld sut y mae gwasanaeth yr heddlu yn gweithredu o fewn y gymuned yn ogystal â gweithdy syrcau iddynt fwynhau.



CAMERÂU CCTV

Addawodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd (PCC) Heddlu Dyfed Powys, Dafydd Llywelyn, fuddsoddi mewn seilwaith CCTV modern i wella diogelwch trefi a chymunedau Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. yn ôl y galw, troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a galwadau am wasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys model staffio i fonitro camerâu er mwyn cadw ein cymunedau yn ddiogel, defnyddio technoleg fodern a meddalwedd i ddarparu system sydd wedi'i diogelu at y dyfodol ac sy'n cefnogi plismona gweithredol.

Mae'r camera CCTV ar gylchfan Tywi wedi'i ddisodli.

TAITH PRYDAIN

Ar ddydd Sul, yr 2^{ail} o Fedi 2018, fe gychwynnodd Taith Prydain ei daith o 1,140 cilometr o Barc Gwledig Pen-bre i Lundain. Cawsom y cyfle i weld rhai o brif seiclwyr y wlad ar waith, gan gynnwys yr arwr Cymreig Geraint Thomas, wrth iddynt deithio drwy Langynnwr a Chaerfyrddin. Roedd nifer allan yn eu croesawu wrth iddynt fynd ar eu taith drwy Langynnwr.



Cadeirydd Cyngor Cymuned Llangynnwr, Sandra Thomas, gyda Maer a Mayoress Tref Caerfyrddin yn gwyllo Taith Prydain



Y choedd yn leinio'r llwybr ar waelod Rhiw Babel

MAE'R FRWYDR DROSODD – 11 TACHWEDD 2018 AM



Ar 11^{eg} o Dachwedd 2018, bu y Ddeyrnas Unedig a'i chyfeillion dramor yn nodi'r diwrnod pan dawelodd y gyniau ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf 100 mlynedd yn ôl. Er mwyn gwneud ein rhan i gofio am aberth myliynau o fechgyn a merched, ymunodd Cyngor Cymuned Llangynnwr yn y digwyddiad gyda'r nos, a ddigwyddodd yn Eglwys Llangynnwr.

6.55p.m.: Mae'r Frwydr Drosodd – chwareuwyd y Last Post.

7.05p.m. Galw am heddwch! - Canwyd cloch yr Eglwys yn cael.

Roedd dros hanner cant o bobl yn yr eglwys.

SEREMONI CYNNAU GOLEUADAU COEDEN NADOLIG - 21 TACHWEDD 2018

Yn ôl traddodiad, mae'r Cyngor Cymuned yn bwriadu Cynnau Goleuadau'r Goeden Nadolig ar gylchfan garej Tywi, nos Fercher yr 21 Tachwedd 2018 am 6 o'r gloch. Bydd plant Ysgol Gynradd Llangynnwr yn canu Carolau Nadolig a bydd lluniaeth ar gael yng Nghapel Babel ar ôl y Seremoni.

DIGWYDDIAD NADOLIG MWY DIOGEL – 30 TACHWEDD 2018

Cynhelir digwyddiad yn Siop Morrisons yng Nghaerfyrddin rhwng 11 a.m. a 6 p.m. Bydd y digwyddiad yn cael ei gefnogi gan yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, y Gwasanaeth Ambiwylans, y Tîm Diogelwch Ffyrdd, Tîm Cadw'n Ddiogel a Safonau Hyfforddi. Fe fydd yna hefyd Ffair Nadolig, a bydd y plant Ysgol Gynradd Llangynnwr a Bro Myrddin yn darparu adloniant.

GWYBODAETH GYFFREDINOL A CHEISIADAU

BINIAU SBWRIEL

Mae wedi dod i'n sylw, fod rhai trigolion wedi bod yn gadael gwastraff tŷ ym miniau sbwriel y Cyngor. Cymerwyd camau eisoes ynglŷn â hyn, ond a all pob preswylwr fod yn ymwybodol bod y biniau sbwriel yn cael eu gorlwytho â sbwriel, sydd wedyn yn cael ei wasgaru dros balmentydd, porfa a ffyrdd. Nid yw'n cymryd hir i lwynogod, adar, cŵn a llygod mawr sylweddoli mae bwyd sydd yna ac felly rydym yn gweld y bagiau'n cael eu rhwygo'n agored a gwastraff yn cael ei adael ar y ddaear, ac yna mae'n rhaid i rywun ei lanhau. A all pawb wneud ymdrech i sicrhau bod gwastraff yn mynd i mewn i finiau ac os yw'r bin yn llawn defnyddiwrch bin arall, a hysbyswch y Clerc neu gynghorydd fel y gallwn fonitro'r sefyllfa. Yr ydym yn ystyried ar hyn o bryd y posibilrwydd o gael cyfleuster ailgylchu yn ardal y Parc, i helpu gyda chyfaint y sbwriel.

CŴN

Mae yn drosedd i ganiatáu i'ch ci faeddu mewn man cyhoeddus. Mae'n ffaith bod baeddu cŵn yn gallu achosi clefyd mewn pobl ac yn enwedig plant. Gallwn i gyd werthfawrogi pa mor fudr yr hyn a gall rhywun gamu ynddo tu allan ac yna cerdded fewn i'r tŷ a'r baeddu o dan eu hesgidiau. Cafwyd digwyddiad yn ddiweddar tu allan i fynedfa lle chwarae'r plant pan na wnaeth perchennog ci lanhau ar ôl ei gi faeddu. Gwyddom fod y rhan fwyaf o'n trigolion sydd yn berchen ar gŵn yn gyfrifol, ond a all pawb sicrhau eu bod yn glanhau ar ôl eu cŵn. Hefyd, hoffem ofyn i chi beidio â rhoi'r bagiau baeddu yn y biniau sbwriel wrth ymyl ardal chwarae'r plant am resymau hylendid amlwg.

OS GWELWCH YN DDA.....CADWCH EIN HAMGYLCHEDD MOR LÂN, IACH A DIOGEL Â PHOSIBL.

SGWTERI SYMUDEDD

Mae wedi dod i'n sylw bod rhai sgwteri anabl a chadeiriau olwyn trydan yn cael eu defnyddio ar y ffordd sy'n dod i fyny heibio i Gapel Babell. Mae hyn yn achosi perygl i eraill sydd yn defnyddio'r ffyrdd, a byddem yn gofyn yn barchus am i'r sgwteri symudedd hyn gadw at y palmant i geisio osgoi damwain difrifol. Mae ein Heddwes Cymunedol wedi cael ei hysbysu a bydd yn cadw llygad ar y mater hwn.

LLWYBRAU TROED

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gofyn inni ymgymryd â'r gwaith o gynnal a chadw nifer o lwybrau troed yn yr ardal, er mwyn eu cadw ar agor ac ar gael i'w defnyddio. Nid ydym wedi penderfynu eto pa lwybrau y byddwn yn eu cymryd drosodd, ond hoffem ofyn i'r holl breswylwyr roi gwybod i ni os ydych yn defnyddio unrhyw lwybr troed yn yr ardal sydd wedi tyfu'n wyllt neu os oes unrhyw bryderon eraill ynglŷn â'r llwybrau troed.

PARCIO

Gellir ei ystyried yn drosedd i barcio cerbyd ar y palmant neu gyda dwy olwyn ar y palmant a dwy olwyn ar y ffordd, gan ei fod yn achosi rhwystr. Mae rhieni gyda phlant a phramiau, cerddwyr, a'r anabl (yn enwedig gyda chadeiriau olwyn) yn cael anhawster i basio cerbydau o'r fath. Mae arwyddion y tu allan i'r Parc yn cynghori modurwyr i beidio â pharcio o flaen y Parc ar unrhyw adeg. A all y personau hynny sy'n ymweld â'r ardal chwarae barcio eu ceir i ffwrdd o'r fynedfa?

NEWYDDION DIWEDDARAF

Ar gywir yr un adeg yr oeddem yn mynd i argraffu'r Cylchlythyr dioddefodd plwyf Llangynnwr lifogydd mawr yn dilyn storm Callum. Rydym yn siŵr y byddwch i gyd yn ymuno â ni wrth anfon ein dymuniadau gorau a'n meddyliau at y rhai sy'n dioddef colled yn ystod y llifogydd a byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu'r rhai sydd mewn angen. Bydd angen help i lanhau ar ôl y llifogydd, a hyderwn y bydd yr ysbryd cymunedol sy'n amlwg yn ystod y llifogydd yn parhau er mwyn helpu'r rhai sydd wedi'u heffeithio i ddychwelyd i arfer cyn gynted â phosibl.

NEDDWEISION CYMUNEDOL

Dewch i gwrdd â'ch Tîm Cymdogaeth leol sy'n gorchuddio ardal Llangynnwr a'r cyffiniau. Gallant gynnig help a chymorth mewn materion sy'n ymwneud â'r gymuned. Yn arferol maent yn bresennol yng nghyfarfod misol y Cyngor Cymuned.

Gallwch gysylltu â'r tîm drwy Ffonio 101 neu drwy e- bost CarmarthenTownNPT@dyfed-powys.pnn.police.uk. Am fwy o wybodaeth ewch i wefan Heddlu Dyfed-Powys Dyfed Powys Police website.

CLYBIAU A CHYMDEITHASAU

Mae nifer o glybiau a chymdeithasau yn cyfarfod yn y gymuned. Os oes gennych unrhyw ddigwyddiadau yr hoffech gyhoeddi neu unrhyw wybodaeth yr hoffech ei hychwanegu at y cylchlythyr a/neu'r wefan, anfonwch fanylion at y Clerc. Nodwch y dylai posteri ac ati fod yn ddwyieithog.

Sefydliad y Merched San Cynnwr / Sefydliad y Merched Llangynnwr

Ffurfiwyd Sefydliad y Merched San Cynnwr yn 1967 ac mae'n un o'r 52 sefydliad yn Ffederasiwn Sir Gâr. Maent yn cyfarfod yn fisol ac yn cynnal sgysiau diddorol sydd yn amrywio o Fforensig, hanes Dillad Isaf, Gwneud Caws i Liwiau'r Gaeaf yn ein gerddi. Yn ogystal, ceir tripiâu, ymweliadau, teithiau cerdded yn ogystal â digwyddiadau wedi eu trefnu gan y Sir, yn cynnwys dominos, dartiau, clybiau llyfrau, cwisiau, bowlio a sioeau ffasiwn - mae yna rywbeth i bawb.

Maent yn arfer cyfarfod ar y dydd Mawrth cyntaf o bob mis yn Ysgol Gynradd Llangynnwr am 7pm ac maent bob amser yn falch o groesawu wynebau newydd. Pam na ddewch i ymweld, gwneud ffrindiau newydd a mwynhau sgwrs dros baned o de a bisgedi, cacen o bosib!

Ymholiadau i Barbara Quick ar 01267 220795 neu barbaraquick@hotmail.co.uk

Urdd Crefft Siwgr Sir Caerfyrddin a'r Cylch

Ffurfiwyd Urdd Crefft Siwgr Sir Caerfyrddin yn 1994 ac mae wedi cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd ers hynny. Os oes gennych ddiddordeb mewn crefft siwgr ac addurno cacennau, mae'r Urdd Crefft Siwgr lleol yn cyfarfod unwaith y mis lle gallwch weld arddangosfa o grefft siwgr a chael llawer o awgrymiadau newydd. Cynhelir y cyfarfodydd ar y dydd lau cyntaf pob mis yn Yr Aelwyd, Tregynnwr. Cysylltwch â 07952 727980 neu ewch i'w tudalen Facebook: Carmarthen Sugarcraft & Cake Decorating Club.

Modelwyr Caerfyrddin

Ffurfiwyd Clwb Modelwyr Caerfyrddin yn 2012 gyda'i brif nod o "feithrin a hyrwyddo gweithgarwch gwneud modelau ar bob lefel, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer adloniant a chystadleuaeth". Cynhelir cyfarfodydd yn Yr Aelwyd ar y ail ddydd Mercher o bob mis. Am gael rhagor o wybodaeth, Cysylltwch â carmarthenmodellersclub@gmail.com neu ffoniwch 01267 220380.

Canolfan Gyfeillgarwch - Capel Babel

Agorwyd y Ganolfan Gyfeillgarwch yng Nghapel Babel ar 19 Medi 2013 ac mae'n cynnig cyfle i bobl ddod i ymgynnull. Does ddim cymhelliad crefyddol tu ôl i'r Ganolfan. Canolfan ar gyfer y gymuned gyfan i'w rhannu yw hi. Galwch fewn i'r ganolfan cyfeillgarwch yng Nghapel Babel am sgwrs a phaned o de a chacen. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Chapel y Babel ar ddydd lau o 10.30am i 1.30 pm.

Grŵp Celf, Crefft a Chlonc

Grŵp Celf, Crefft a Chlonc yw'r cyfle perffaith i'r rhai dros 50 mlwydd oed i ddod at ei gilydd a bod yn greadigol. Y gost yw £1.00 yr wythnos sydd yn cynnwys te/coffi/ayyb a deunyddiau i symud ymlaen. Mae'r grŵp hwn yn rhan o Brosiect Cyswllt Ymgyfeillio Gorllewin Cymru, cynllun a ariennir gan y Loteri Fawr. Ystod oedran yw 50 +. Bob dydd Mercher 2pm - 4pm.

Undeb Mamau Llangynnwr a Cwmffrwd

Mae grŵp Undeb Mamau Eglwys Llangynnwr yn cyfarfod am 7pm ar yr ail ddydd Mercher o bob mis. Fel arfer mae yna siaradwr gwadd gyda the, coffi a bisgedi i ddilyn. Cynhelir y cyfarfodydd yn Neuadd Eglwys Llangynnwr. Trefnir gwibdaith yn yr haf. Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01267 234482.

CANOLFAN AILGYLCHU / DYDDIADAU CASGLU SBWRIEL – NANTYCAWS

Canolfan ailgylchu gwastraff Nantycaws, Heol Llanddarog, Nantycaws, Sir Gaerfyrddin SA32 8BG

Amseroedd agor yr haf (1 Ebrill - Medi 30) Llun – Sul: 8.30am-7pm

Amseroedd agor y gaeaf (Hydref 1 – 31 Mawrth) Llun-Sul 8.30am-5pm

Mae'r safle ar gau Dydd Nadolig, dydd San Steffan a Dydd Calan

Noswyl y Nadolig a Nos Calan 1.30am – 12pm

Compost Hud Myrddin ar werth yma


WYTHNOSAU CASGLU'R BAG GLAS / DU

2018

Ionawr 18							Chwefror 18							Mawrth 18							Ebrill 18						
LI	M	M	I	G	S	S	LI	M	M	I	G	S	S	LI	M	M	I	G	S	S	LI	M	M	I	G	S	S
1	2	3	4	5	6	7				1	2	3	4				1	2	3	4	2	3	4	5	6	7	8
8	9	10	11	12	13	14	5	6	7	8	9	10	11	5	6	7	8	9	10	11	9	10	11	12	13	14	15
15	16	17	18	19	20	21	12	13	14	15	16	17	18	12	13	14	15	16	17	18	16	17	18	19	20	21	22
22	23	24	25	26	27	28	19	20	21	22	23	24	25	19	20	21	22	23	24	25	23	24	25	26	27	28	29
29	30	31					26	27	28					26	27	28	29	30			30						
Mai 18							Mehefin 18							Gorffennaf 18							Awst 18						
LI	M	M	I	G	S	S	LI	M	M	I	G	S	S	LI	M	M	I	G	S	S	LI	M	M	I	G	S	S
	1	2	3	4	5	6				1	2	3	4	2	3	4	5	6	7	8				1	2	3	4
7	8	9	10	11	12	13	4	5	6	7	8	9	10	9	10	11	12	13	14	15	6	7	8	9	10	11	12
14	15	16	17	18	19	20	11	12	13	14	15	16	17	16	17	18	19	20	21	22	13	14	15	16	17	18	19
21	22	23	24	25	26	27	18	19	20	21	22	23	24	23	24	25	26	27	28	29	20	21	22	23	24	25	26
28	29	30	31				25	26	27	28	29	30		30	31						27	28	29	30	31		
Medi 18							Hydref 18							Tachwedd 18							Rhagfyr 18						
LI	M	M	I	G	S	S	LI	M	M	I	G	S	S	LI	M	M	I	G	S	S	LI	M	M	I	G	S	S
3	4	5	6	7	8	9	1	2	3	4	5	6	7				1	2	3	4	3	4	5	6	7	8	9
10	11	12	13	14	15	16	8	9	10	11	12	13	14	5	6	7	8	9	10	11	10	11	12	13	14	15	16
17	18	19	20	21	22	23	15	16	17	18	19	20	21	12	13	14	15	16	17	18	17	18	19	20	21	22	23
24	25	26	27	28	29	30	22	23	24	25	26	27	28	19	20	21	22	23	24	25	24	25	26	27	28	29	30
							29	30	31					26	27	28	29	30			31						

PCU18070_WS

COFIWCH y bydd eich bin bwyd yn cael ei gasglu bob wythnos.

 **Gŵyl y Banc -**
Edrychwch am newidiadau



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru/ailgylchu
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales/recycling

WS

DWEUD EICH DWEUD ...

Beth hoffech chi ei weld yn digwydd yn eich cymuned yn y dyfodol? Hoffech weld fwy o ddigwyddiadau cymunedol? A fydddech yn cefnogi'r digwyddiadau cymunedol pe baent yn cael eu trefnu? A oes gennych unrhyw syniadau ar gyfer pa fath o ddigwyddiadau gellir eu cynnal? Llenwch yr arolwg sy'n ynghlwm.

A oes gennych unrhyw bryderon yr hoffech godi? Ydych chi'n gwybod sut i roi gwybod am lamp stryd ddiffygiol, neu unrhyw ddifrod arall? Ydych chi'n gwybod sut i wneud cwyn? Ydych chi am hyrwyddo un o'ch digwyddiadau ym Mhlwyf Llangynnwr? Ydych chi eisiau Cyngor Cymuned Llangynnwr hyrwyddo eich digwyddiad ar ei gwefan? Ydych chi am gael cymorth gan eich cyngor? Os oes gennych unrhyw beth yr hoffech ei godi, anfonwch e-bost neu ffoniwch Glerc y Cyngor. Bydd hyn yn sicrhau y bydd eich gohebiaeth yn cael ei nodi'n ffurfiol ac yna gellir ei drosglwyddo i'ch cyngorwyr lleol. (Nodwch fod rhaid i bob eitem ar gyfer y wefan fod yn ddwyieithog).

I GLOI....

Rydym yn gobeithio eich bod wedi mwynhau'r cylchlythyr cyntaf hwn gan y Cyngor Cymuned, a'ch bod yn fwy ymwybodol o bwy yw eich cyngorwyr, beth mae'r Cyngor yn ei wneud i chi a beth sy'n mynd ymlaen yn y gymuned.

Hoffem i chi gymryd rhan mewn arolwg byr. Bydd cyfle i ddau o'r arolygon a gyflwynir i ennill £25 yr un.

Arolwg

Cyn y Cylchlythyr:

- Oeddech chi'n gwybod am Gyngor Cymuned Llangynnwr? le Na
- Ydych yn teimlo eich bod yn gwybod digon am beth mae'r Cyngor Cymuned yn ei wneud? le Na
- Oeddech chi'n adnabod unrhyw un o'ch cyngorwyr cymuned leol? le Na
- Oeddech chi'n gwybod sut i gysylltu â'r Cyngor Cymuned? le Na
- Oeddech chi'n gwybod o ble mae'r Cyngor Cymuned yn cael ei arian? le Na

Ar ôl y Cylchlythyr:

- A ydych yn teimlo eich bod yn deall mwy am yr hyn y mae'r Cyngor Cymuned yn ei wneud? le Na
- Ydych chi'n teimlo eich bod yn medru cysylltu â'r cyngor cymuned os oes gennych bryderon? le Na
- A ydych yn gwybod lle mae'r Cyngor Cymuned yn arddangos gwybodaeth i'r gymuned? le Na
- Oeddech chi'n meddwl bod y cylchlythyr yn ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth? le Na
- Ydych chi am barhau i dderbyn rhifynnau o'r Cylchlythyr? le Na
- Beth arall hoffech weld yn eich Cylchlythyr?

Eich barn:

Beth ydych chi'n meddwl y dylai'r Cyngor Cymuned ddarparu yn y dyfodol? Gwell cyfleusterau i bobl ifanc Gwell digwyddiadau cymunedol lleol Parciau a chyfleusterau hamdden well Strydoedd glanach Trefi "yn eu blodau" Mwy o hysbysfyrddau Neuadd gymunedol Arall Rhowch fanylion

A ydych yn gwybod bod y rhan fwyaf o gartrefi (faint bynnag o bobl sy'n byw ynddynt) yn talu llai na £25 y flwyddyn i'r Cyngor Cymuned (yr enw ar hyn yw'r praesept)? le Na

Ydych chi'n meddwl ddylai'r Cyngor Cymuned wneud mwy dros Plwyf Llangynnwr a chynyddu'r praesept (arian a dderbynnir o'r treth gyngor) er mwyn gwneud hynny? le Na

Mae'r Cylchlythyr yn costio 86 p y pen. Ydych chi'n meddwl bod hyn yn ddefnydd da o arian i gyfathrebu gyda'r holl drigolion o fewn plwyf Llangynnwr? le Na

I arbed arian ar ddsbarthu a/neu gostau argraffu:

A fydddech yn fodlon casglu eich cylchlythyr o leoliad casglu lleol? le Na

A fydddech yn fodlon darllen y cylchlythyr ar wefan y Cyngor Cymuned? le Na

Os ydych am barhau i gael eich cylchlythyr wedi'i ddsbarthu, rhowch eich enw a'ch cyfeiriad isod.

Rhowch enw/cyfeiriad/e-bost/rhif ffôn er mwyn i ni eich hysbysu os mai chi yw'r enillydd neu i dderbyn cylchlythyrau drwy'r post yn y dyfodol.

.....
Sawl yn y cartref?A allwn ni gysylltu â chi i drafod ymhellach? le Na

Llenwch y ffurflen hon a'i dychwelyd at Mr. Clive Thomas, Clerc y Cyngor, 59 Nantyrarian, Caerfyrddin, SA31 3JQ, ffôn 01267 232665 neu sganio a'i e-bostio at: Clerk@llangunnor-cc.org.uk neu gallwch ei ollwng gydag unrhyw un o'ch cyngorwyr cymunedol.